

Y Sgwrs Fawr

Dewch i ni ddadansoddi pethau...

Beth wnaethon ni?

Nod y Sgwrs Fawr yw darparu llwyfan i bobl ifanc leisio eu barn i Weinidogion Llywodraeth Cymru. Teithiodd tîm Cymru Ifanc ledled Cymru, gan siarad â phobl ifanc am faterion oedd yn bwysig iddyn nhw.

Gyda phwy fuon ni'n siarad?

Yn ein gwaith cychwynnol ar y Sgwrs Fawr, fe wnaethom ni siarad â 122 o bobl ifanc o bob cwr o Gymru, gan gynnwys:

8 Awdurdod Lleol ac 17 Grŵp

Arweiniodd ein gwaith Sgwrs Fawr at gynnal Gŵyl Cymru Ifanc, lle cynhaliwyd cyfres o symposia, yn canolbwyntio ar y themâu a ddaeth i'r amlwg o'r canfyddiadau cychwynnol. Ymgysylltodd y digwyddiad hwn â:

168 o fynychwyr ychwanegol

★Fe wnaethon ni flaenoriaethu'r meysydd canlynol ar gyfer trafodaeth gyda phobl ifanc...★

Teimlo'n Ddiogel Ar-lein ac mewn Perthynas

Iechyd Meddwl a Llesiant

Addysg a Hyfforddiant

Trafnidiaeth

Newid Hinsawdd

Gofalwyr Ifanc

Cyfiawnder Cymdeithasol

Costau Byw

Fe gasglon ni farn yn ein sesiynau Sgwrs Fawr, ac yn ein Symposia Gŵyl Cymru Ifanc.

Dyma beth oedd gennych chi i'w ddweud...

“Mae pawb yn cael diwrnodau drwg, ond dydyn ni ddim yn cael y cyfle i'w drwsio pan rydyn ni wedi gwneud llanast”

Trafod perfformiad pobl ifanc mewn arholiadau

“Dylid gwneud mwy ledled Cymru. Nid Caerdydd mo Cymru gyfan.”

Trafod cyfleoedd cyfranogiad lleol

“Mae diffyg cefnogaeth i ddisgyblion 2il neu 3ydd iaith. Maen nhw'n cael trafferth cwblhau arholiadau.”

Trafod profiad disgyblion 2il / 3ydd iaith mewn addysg

“Mewn ardaloedd gwledig, does yna ddim gwasanaethau i bobl ifanc.”

Trafod gwasanaethau iechyd meddwl

“Roedd llawer o athrawon yn meddwl fy mod i'n ymddwyn yn ddrwg.”

Trafod y canfyddiad o iechyd meddwl mewn ysgolion.

“Os nad oes gennych chi arian, rydych chi'n cael eich gadael allan”

Trafod costau ysgol

Beth Ddigwyddodd Nesaf?

Drwy drafodaethau yn sesiynau'r **Sgwrs Fawr** a **Symposia Gŵyl Cymru Ifanc**, cafodd plant a phobl ifanc gyfle i rannu eu hargymhellion i Weinidogion Llywodraeth Cymru ar amrywiaeth o bynciau.

Dyma rai o argymhellion y Bobl Ifanc...

"Mae angen ymgynghori pellach gyda Phlant a Phobl Ifanc ar gostau **addysg**."

"Gwell gwasanaethau cefnogaeth **iechyd meddwl** mewn ysgolion, fel cwnsela tymor hir a mwy o fannau tawel."

"Mwy o ffocws ar leihau agweddau **trawsffobig** a **homoffobig** yng Nghymru wledig."

"Mae angen ymgynghori ymhellach gyda phlant a phobl ifanc sy'n profi **tlodi**."

"Cyflwyno cynllun gwobrwyo ar gyfer gweithredoedd sy'n gyfeillgar i'r **amgylchedd**."

"Addysg gyson ar **berthynas iach** mewn ysgolion, ar bynciau fel cydsyniad."

Rhannu ein Canfyddiadau

Ar ôl Gŵyl Cymru Ifanc, casglwyd y safbwyntiau a gasglwyd drwy sesiynau'r Sgwrs Fawr a Symposiwm yr Ŵyl yn adroddiad, a'u rhannu â Gweinidogion perthnasol Llywodraeth Cymru. Gwahoddwyd y Gweinidogion i Fyrddau Ymgynghorol a Chyfarfodydd Preswyl Cymru Ifanc yng Ngwanwyn 2025 i siarad â'n gwirfoddolwyr.



Ymgysylltiad Gweinidogol

Siaradodd ein gwirfoddolwyr Cymru Ifanc â'r Gweinidogion dros **lechyd Meddwl a Llesiant, Plant a Gofal Cymdeithasol**, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros **Gyfiawnder Cymdeithasol**. Yn ogystal, derbyniwyd ymateb drwy lythyr gan y Gweinidog dros **Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**.

Ymatebodd pob Gweinidog i'n gwirfoddolwyr, ac ymdrin â'r cwestiynau a'r argymhellion a gyflwynwyd.

Gofynnodd Gwirfoddolwyr Cymru Ifanc...

"Beth yw cynllun Llywodraeth Cymru i wella safon y gefnogaeth lechyd Meddwl a Llesiant i'r rhai mewn addysg?"

Ymatebodd y Gweinidog lechyd Meddwl a Llesiant...

- Cynlluniau ar gyfer lansio strategaeth lechyd Meddwl a Llesiant ar gyfer pob oed.
- Mae hi'n gobeithio y bydd rhestrau aros yn lleihau'n fuan - mae hi'n gwneud cymaint ag y gall, a diolchodd i'r bobl ifanc.
-

Rhannodd Gwirfoddolwyr Cymru Ifanc...

"Beth sy'n digwydd ar ôl siarad â Gweinidogion? Weithiau mae'n teimlo fel nad yw eich llais yn werthfawr mewn gwirionedd neu nad yw'n cael ei wrando arno mewn gwirionedd."

Ymatebodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol...

- Amlinellodd bwysigrwydd hawliau plant i Lywodraeth Cymru, ac yn ei gwaith hi fel Gweinidog.
- Diolchodd i'r bobl ifanc am eu hamser, a'u gonestrwydd wrth roi cyfle iddi wrando ar eu meddyliau.

Gofynnodd Gwirfoddolwyr Cymru Ifanc...

"Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu hybu cyfranogiad ac ymgysylltiad pobl ifanc? Yn benodol mewn ardaloedd gwledig?"

Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnaer Cymdeithasol...

- Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at gael polisiau i gyrraedd ardaloedd mwy gwledig.
- Maen nhw'n gweithio i fynd i'r afael â'r croestoriad rhwng tldi a chyfranogiad.
- Mae adrodd i'r Senedd leuenctid yn helpu i greu newid.



Gwirfoddolwyr Cymru Ifanc gyda'r Ysgrifennydd Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt AS.

Gofynnodd Gwirfoddolwyr Cymru Ifanc...

"A yw'r cysyniad o drafnidiaeth gyhoeddus gyflawn yng Nghymru yn bosibilrwydd yn y dyfodol?"



Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig...

"Dydw i ddim yn credu bod y cysyniad o drafnidiaeth gyhoeddus gyflawn yn bosibl yng Nghymru...Ni fydd hyd yn oed y rhwydweithiau bysiau a rheilffyrdd gorau yn cyrraedd pob cymuned, drwy'r amser."

Gofynnodd Gwirfoddolwyr Cymru Ifanc...

"Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i fynd i'r afael â rhethreg homoffobig a thrawsffobig o fewn y system addysg a gofal iechyd?"



Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol...

- Mae Cwricwlwm newydd Llywodraeth Cymru ar berthnasodd yn cynnwys edefyn sy'n sicrhau cynhwysiant.
- Amlinellodd gynlluniau i ddiweddarau polisi gwrth-fwlio, a'r gwaith ar y Cynllun Gweithredu LHDTG+.
- Sicrhau bod polisi ar gyfer Hawliau, Parch a Chydraddoldeb.



Gwirfoddolwyr Cymru Ifanc gyda'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, Sarah Murphy AS.



Gwirfoddolwyr Cymru Ifanc gyda'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, Dawn Bowden AS.

Meddyliau i Gloi



Mae'r cysylltiadau a wnaed drwy gydol Y Sgwrs Fawr yn fwy na sgysiau yn unig; maent yn gyfleoedd i sbarduno newid go iawn a grymuso pobl ifanc i helpu i lunio dyfodol Cymru.

Mae prosiect y Sgwrs Fawr yn tynnu sylw at ymrwymiad parhaus Cymru Ifanc a Gweinidogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn llywio polisi a gwneud penderfyniadau yng Nghymru.

Mae wedi'i gydnabod yn eang bod y broses Ymgysylltu â Gweinidogion o fewn y prosiect hwn, o wrando ar bobl ifanc a chyfarfod â Gweinidogion, wedi bod yn llwyddiant ac yn rhywbeth y dylid adeiladu arno yn y dyfodol.

Ar y Gweill, Y Sgwrs Fawr 2025/26...